



Cyn y cyfarfod, gwahoddwyd pawb oedd yn bresennol i gymryd rhan mewn gweddi, arweinodd Cyng. Kistiah Ramay yr aelodau mewn gweddi.

**CYNGOR TREF LLANBEDR POST STEFFAN
COFNODION CYFARFOD CYLLID
16.01.20 NEUADD FICTORIA, LLAMBED AM 7.30YH.**

1. CROESO'R CADEIRYDD

Croesawodd y Maer Cyng. Rob Phillips bawb l'r cyfarfod.

2. PRESENOL

Y Maer, Cyng. Rob Phillips, y Dirprwy-Faer Cyng. Selwyn Walters, Cyng. Kistiah Ramaya, Cyng. Chris Thomas, Cyng. (Hag) Harris, Cyng. Ann Morgan, Cyng. Dinah Mulholland & Cyng. Gary Thorogood.

Meryl Thomas – Clerc y dref.

YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cyng. Dave Smith, Cyng. Rhys Bebb Jones, Cyng. Helen Thomas, Cyng. Elin T Jones, Cyng. Emma Wood & Cyng. Richard Marks

3. DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL

Y Maer Cyng. Rob Phillips - cais cynllunio Co-op - trysorydd ac aelod o Gapel Noddfa.
Cyng. Ann Morgan - cais cynllunio Co-op - ysgrifennydd as aelod o Gapel Noddfa.

4. STRATEGAETH ECONOMAIDD NEWYDD I CEREDIGION (2020-2035)

Cytunwyd i'r Maer Cyng. Rob Phillips gwblau'r holiadur.

5. YMGYNGHORIAD Y CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL

Cytunwyd i'r Maer Cyng. Rob Phillips i lenwi'r ffurflen ar ôl derbyn adborth gan gynghorwyr.

6. CUNLLUNIO

6.1 - Cyngor Sir Ceredigion - Cais A191044 - Archfarchnad Co-op, Stryd y bont, Llanbedr Pont Steffan. Cynnig - bydd offer rheweiddio newydd yn cael ei osod , ffens i'w osod 2.4 metr o uchder y tu ôl i'r storfa, ailaddurno blaen y siop, gwaith newydd i'r maes parcio a'r iard wasanaethu - Dim gwrthwynebiad.

6.2 Cyngor Sir Ceredigion - Cais A191047 - Tai Ceredigion, Llys Pedr, Llanbedr Pont Steffan. Cynnig - newidiadau i'r man parcio, ymestyn y storfa biniau bresennol, newidiadau mewnol i'r brif fynedfa, gosod rhestr newydd a gwaith cysylltiedig. -Dim

gwrthwynebiad.

7. AILBRISIO ASED AU SEFYDLOG

Penderfynwyd dibrisio'r holl beiriannau ac offer 10% bob blwyddyn.

8. ADRODDIAD CYLLID 2020-21

Cyflwynodd y clerc yr adroddiad cyllideb i'r Cyngor i'w ystyried. Cynhwyswyd darpariaeth o 10% ar gyfer gwaith atgyweirio a chyfnewid ar beiriannau ac offer yn yr adroddiad. Mae costau'r dyfodol hefyd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ar gyfer glanhawr strydoedd, offer chwarae newydd ar gyfer Maesyfelin, ac o bosibl cymryd cyfrifoldeb am y Gofeb Ryfel a'r Ffynnon yn Sgwâr Harford.

Awgrymodd y Cyng. Gary Thorogood a'r Cyng. Dinah Mulholland fancio moesegol i gronfeydd wrth gefn y cyngor. Cynigiodd y Cyng. Hag Harris gynnal cyfarfod arbennig i drafod cronfeydd wrth gefn y cyngor yn y 6 mis nesaf ar ôl derbyn gwybodaeth bellach, eiliwyd gan y Cyng. Chris Thomas ac fe'i derbyniwyd gan bawb oedd yn bresennol.

Dywedodd y Cyng. Dinah Mulholland bod y gost o redeg y wefan yn ymddangos yn uchel iawn, sef £678.00 y flwyddyn, ac y dylai'r cyngor ystyried lleihau'r costau. Dywedodd y Maer ei fod yn bris uchel ond darparwyr lleol ydynt sy'n cyflenwi gwasanaeth da iawn a llawer o gefnogaeth sy'n caniatáu i'r Cyngor allu gwneud yr holl waith ar y wefan. Bydd y Cyng. Dinah Mulholland yn edrych i mewn i ddarparwyr eraill cyn y dyddiad adnewyddu nesaf ym mis Tachwedd.

Gofynnodd y Cyng. Gary Thorogood pwy fyddai'n gallu diweddarau'r wefan gan ei fod yn llawer o waith i'r Maer sy'n gwneud hyn ar hyn o bryd. Penderfynwyd y bydd y pwyllgor gweinyddiaeth yn edrych i mewn i hyn.

9. PRAEPT 2020-21

Ar ôl cynnig trafodaeth ofalus cynigiodd y Cyng. Hag Harris a eiliwyd gan y Cyng. Kistiah Ramaya i gadw'r praept yr un fath â'r flwyddyn flaenorol h.y. £41,000.00, a chytunwyd arno gan bawb oedd yn bresennol. Bydd y Clerc yn llenwi'r ffurflen praept ac yn ei chyflwyno i CSC.

Aelodau yn teimlo y gellid talu costau rhedeg o fewn y gyllideb. Gellid priodoli'r ffaith bod yr archebiant wedi aros yr un fath i'r ffordd ddarbodus yr oedd Cyngor y dref wedi ymdrin â'r cyllid

10. ADNEWYDDU POLISI YSWIRIANT

Mae'r clerc wedi derbyn dyfynbris gan Zurich am £1896.18 o ddarparwyr yswiriant Cyngor y dref dros y blynyddoedd diwethaf. Cafwyd dyfynbris gan AXA am £1,137.00. Bydd y clerc yn cysylltu â Zurich i weld a ydynt yn gallu cyfateb i'r dyfynbris a gafwyd gan AXA.

11. UFA

Dywedodd y Cyng. Selwyn Walters fod Western Power yn hapus i ailosod yr hen feinciau y tu ôl i J H Roberts gyda rhai newydd. Bydd y clerc yn cysylltu â CSC i weld a ydynt yn hapus i gael Western Power i ailosod y meinciau.

Gohiriwyd y cyfarfod am 9.00yh

